Hawdd ei Ddeall

Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
North Wales **Together**
*Gwasanaethau Ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*
*Seamless services for people with Learning Disabilities*

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales


# Newid batri yn eich cymorth clywed

**Mae'r daflen hon ynglŷn â newid y batri yn eich cymorth clywed**


## Sut i roi eich cymhorthion clywed ymlaen



Mae drôr y batri ar waelod y cymorth clywed.



1. Agorwch ddrôr y batri gan ddefnyddio eich gewin.




2. Tynnwch y batri allan. Mae hyn yn cael ei ddangos gan rif 1 yn y llun.



3. Rhowch yr hen fatri yn rhywle diogel i gael ei ailgylchu.

4. Rhowch y cymorth clywed i lawr ar fwrdd gyda drôr y batri ar agor.





5. Cymerwch fatri newydd allan o'r pecyn.


6. Tynnwch y sticer oddi ar y batri newydd.




7. Gadewch y batri newydd am **bum munud**. Bydd hyn yn gwneud iddo bara'n hirach.




8. Rhowch y batri newydd yn nrôr y cymorth clywed gyda'r ochr fflat ar i fyny. Mae hyn yn cael ei ddangos gan rif 2 yn y llun.



9. Caewch ddrôr y batri yn ofalus.



Mae'r cymorth clywed ymlaen yn awr ac yn barod i'w ddefnyddio.